Atebodd Iesu, “Oni lanhawyd y deg? Ble mae’r naw? Ai’r estron hwn yn unig a gafwyd i ddychwelyd ac i roi gogoniant i Dduw?”
(Luc 17:17-18)

Mae’r geiriau hyn gan Iesu yn dangos siom Duw pan fydd dyn yn ei gymryd yn ganiataol. Mae cymaint yn gweiddi arno mewn angen ond yn fud mewn diolch. Er eu bod yn derbyn cymaint oddi ar ei law maent yn colli rhywbeth enfawr, sef iachawdwriaeth eu heneidiau.

Y gwahangleifion

Dyma grŵp o ddeg oedd yn gymysg o ran cenedl. Fel arfer, byddai’r Iddewon a’r Samariaid yn osgoi ei gilydd. Nawr, roedd eu salwch a’u hangen wedi eu tynnu at ei gilydd gan chwalu’r muriau arferol.

Maen nhw’n byw tu allan i dref oherwydd Cyfraith Duw ynglŷn â’r gwahanglwyfus: **“Y mae… i wisgo dillad wedi eu rhwygo, gadael ei wallt yn rhydd, gorchuddio’i wefus uchaf a gweiddi, ‘Aflan, aflan!’ Y mae’n aflan cyhyd ag y bydd y dolur arno; y mae i fyw ar ei ben ei hun, a hynny tu allan i’r gwersyll”.** (Lef. 13:45). Fe’u hamddifadwyd, felly, o gymdeithas teulu a ffrindiau, a rhag addoli’n gyhoeddus hefyd.

Mae’n debyg eu bod yn byw mewn rhyw lecyn cysgodol neu ogof tu allan i’r dref a’u bod yn cardota wrth i bobl deithio i mewn ac allan o’r dref. Maen nhw’n gweiddi ar Iesu. Mae pob un yn awyddus i gael ei wella. Mae nhw’n cytuno i alw ar Iesu; mae’n siŵr bod rhai ohonynt wedi clywed amdano. Maen nhw’n galw arno gyda’i gilydd ac yn ei alw’n feistr. Mae pob un yn ufuddhau i’w orchymyn llawn gobaith i fynd at yr offeiriad.

Mae’r gwahanglwyf yn ddarlun o amryw afiechydon ac argyfyngau a ddaw i’n rhan fel dynoliaeth yn y byd.

Iachâd

Mae Iesu’n cyhoeddi iachâd trwy siarad o bellter a dweud wrthynt am fynd at yr offeiriad. Eto, mae Iesu’n glynu wrth Gyfraith Duw. Roedd yr offeiriad i archwilio’r claf y tu allan i’r gwersyll (tref), ac os byddai’n lân, byddai’n dilyn seremoni lanhau gyda dau aderyn glân, pren cedrwydd, edau ysgarlad ac isop. Gwelwn amrywiaeth y dulliau mae Iesu’n eu defnyddio i iacháu. Dydy e ddim yn cyffwrdd â’r deg claf, dim ond yn dweud y gair o bell.

Wrth fynd at yr offeiriad, fe deimlodd y deg y nerth a’r iechyd yn rhuthro eto trwy eu cyrff. Roedden nhw’n iach, ac yn gwybod hynny!

Y naw

Gwaetha'r modd aeth naw yn syth ymlaen at yr offeiriad gan adael un yn unig i droi nôl a diolch. Dyma'r natur ddynol ar ei gwaethaf, yn annuwiol, yn anniolchgar ac yn hunanol.

Sawl gwaith mae'r olygfa yma wedi cael ei hailadrodd dros y canrifoedd! Rwy'n cofio clywed am weinidog yn Ne Cymru yn pregethu yn yr awyr agored. Daeth person ato mewn argyfwng oherwydd salwch arbennig, a gofyn iddo weddïo gydag ef. Gwnaeth hynny, ac yn wir fe gafodd iachâd. Ymhen amser, gwelodd y gweinidog ef eto a gofyn sut oedd pethau. Atebodd y dyn fod popeth yn dda. Gofynnodd y gweinidog ble'r oedd yn addoli, ond daeth yr ateb trist nad oedd yn addoli Duw o gwbl; roedd popeth yn iawn yn ei fywyd eto, a doedd dim angen Duw arno mewn gwirionedd.

Y Samariad

Dywed Luc wrthym bod un o'r cleifion, Samariad o bawb, wedi troi nôl i ddiolch cyn symud ymlaen i gael y gydnabyddiaeth swyddogol o'i lanhad. Roedd daioni a thynerwch Duw wedi tywys un, o leiaf, i edifeirwch a ffydd. Mae'n troi nôl gan ogoneddu Duw â llais uchel. Mae llef ei ddiolch gymaint â llef ei ofyn.

"Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
dim ond diolch yw fy lle" (Pantycelyn).

Mae cymaint yn cyflwyno'u ceisiadau i Dduw â llais uchel, tra bod eu diolch yn fud.

Mae'n syrthio ar ei wyneb. Mae'n plygu mewn addoliad diolchgar o flaen Iesu. Mae'n ymostwng gerbron ei Arglwydd, mae'n credu ynddo ac yn ei gydnabod hefyd.

Iesu

Mae Iesu'n mynegi siom nad oedd y bobl â chefndir o Dduw wedi diolch i'r Duw hwnnw. Roedd ganddynt wybodaeth a phrawf o ddaioni Duw, ond dim ffydd ddiolchgar. Roedd y Goruchaf wedi dangos eto ei fod yn garedig wrth yr anniolchgar a'r drygionus.

Mae'n cadarnhau'r Samariad trwy nodi ei fod wedi derbyn iachâd dwbl. Nid yn unig roedd ei gorff yn iach, fel y naw arall, ond roedd ei enaid cyfan wedi derbyn iachawdwriaeth. Roedd wedi derbyn yr iachâd tymhorol gyda diolchgarwch ac ymostyngiad a ffydd, ac roedd hynny wedi arwain at iachâd ysbrydol hefyd.